Babell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

Gair o'r Garn

Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 18 Calan 2012

A daeth y Gair yn gnawd

Annwyl ffrindiau,

Oni fyddai hi'n dda o beth i ni gael gwared â'r Nadolig, dywedwch? Wedi'r cyfan, mae'r rhan fwyaf o bobl heddiw wedi hen golli golwg ar wir ystyr grefyddol yr Ŵyl. Diolch i'r gymdeithas seciwlar fe'i diraddiwyd i fod yn achlysur i wario arian diddiwedd, yn gyfle i foddhau'r hunan ac yn esgus i fwyta ac yfed yn ddi-baid, heb fod iddi fawr o gysylltiad â genedigaeth mab Mair ym Methlehem ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Diau bod y gweinidog a'r Prifardd E Llwyd Williams wedi taro'r cywair priodol pan awgrymodd, hanner canrif a mwy yn ôl, yn ei gerdd i'r 'Nadolig', mai'r peth gorau fyddai i ni ddileu'r Ŵyl yn gyfan gwbl:

> Cleddwch yr ŵyl, nid yw ond ysgerbwd,
> Esgyrn y ginio, ysbwriel y wledd.
> Teflwch i'r Baban yr hosan deganau
> A pheidiwch â son am aur, thus a myrr ...
> Cleddwch yr ŵyl, eiddo Mamon yw mwyach,
> Mamon a masnach, miri a medd.

Ydy, mae'n hen ystrydeb mi wn: 'Christ has been taken out of Christmas', a chymerwyd ei le gan ein pleserau hunanol sydd yn gymaint rhan o'n dathliadau erbyn hyn. Disodlwyd y Nadolig gan y 'Winterval', a hynny mae'n siŵr am fod enw o'r fath yn fwy gwleidyddol gywir ac yn osgoi unrhyw ddrwgdeimlad ymhlith y rhai sy'n anffyddwyr yn ein plith. Efallai fod ffydd yn codi rhywfaint o gywilydd ar y byd seciwlar wedi'r cyfan!

Ond pam ddylem ni gladdu'r Ŵyl? Camgymeriad mawr ar ran Cromwell a'r Piwritaniaid yn yr ail ganrif ar bymtheg oedd ceisio dileu'r Nadolig a phob dim oedd yn gysylltiedig ag ef. Does dim rhyfedd y bu gwrthwynebiad mawr i'w hymdrechion. Na, mae'n ddigon rhesymol ein bod am o leiaf un diwrnod neu ddau yn nhrymder gaeaf ar ddiwedd mis Rhagfyr yn llawenhau a gorfoleddu.

Ond i'r Cristion mae mwy i'r Nadolig na gwledda ac anfon cardiau, mwy na chyfnewid anrhegion a rhoi'r goeden addurniedig a'r goleuadau llachar yn eu lle, mwy hyd yn oed na chanu'r garol yng ngolau'r gannwyll a darllen yr hanes am fugeiliaid a doethion yn dod i Fethlehem.

Mae'r pethau hyn i gyd yn ddymunol ond os mai dyna'r cyfan y mae'r Nadolig yn ei olygu i ni ac i'n cymdeithas, yna rydym mewn perygl mawr o fethu'r pwynt ynglŷn â'r Ŵyl.

Prif neges y Nadolig yw dyfodiad Duw yn ddyn a'i amlygu ef mewn cnawd: 'A gelwir ef Immanuel' (Mathew 1:23). Wrth ddathlu'r Nadolig yr ydym yn llawenhau fod Duw gyda ni yn Iesu a'i fod yn dymuno ein cyfarfod wyneb yn wyneb. Nid Duw amhersonol mohono, ond Duw agos sydd yn ein caru'n angerddol. Mae E'n poeni amdanom, mae E'n deall ein rhwystredigaethau a'n gofidiau i gyd ac yn rhannu â ni yn ein holl brofiadau dynol. Rhoddwyd mynegiant i hynny ddwy fil o flynyddoedd yn ôl yng nghân yr angel wrth y bugeiliaid: 'Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.' (Luc 2:11) Nid oes ystyr i fywyd heb Dduw ac oherwydd ei fod Ef wedi dod i'n plith, ein dyletswydd ninnau yw rhannu ym mhrofiadau'r ddynoliaeth gyfan. Yng nghanol yr holl wledda a'r gwario a all fod yn gymaint rhan o'n dathliadau eleni, mae Duw yn ein galw i gofio am y rhai hynny sydd yn dlawd, yn unig ac yn ddolurus yn y byd, y rhai ar gyrion cymdeithas a fydd yn treulio'r Nadolig yn ddigartre, yn unig ac yn ddiymgeledd, ac a fydd yn amau a yw bywyd yn werth ei fyw.

Dylem ar Ŵyl y Nadolig – gofio—
Am gyfaill fo'n unig;
Rhannu gair a'n darn o gig
Ar stryd y rhai rhwystredig.

Gwilym Roberts

Ni ellir eithrio Duw oddi wrth ein dynoliaeth ni. 'A daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith.' (Ioan 1:14)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Yr eiddoch yng Nghrist,

Wyn Morris (Bugail)

Tudalen y Plant

Ysgrifennwch enwau'r anrhegion a roddodd y dynion doeth i'r baban Iesu, a lliwio'r lluniau. Yna llanwch y grid geiriau.

1) Anrheg a roddwyd gan y Doethion.

2) Roedd Herod eisiau gwneud hyn i Iesu.

3) Anrheg arall oddi wrth y Doethion.

4) Dilynodd y Doethion hon.

5) Daeth y Doethion i __ __ __ __ __ __ Iesu.



Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **31 Ionawr**.

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Llongyfarchiadau i William Morrell, Ysgol Sul Capel Seion, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.

Manylion Cyswllt y Gweinidog:
Y Parch Wyn Morris,
Berwynfa, Penrhyn-coch,
Aberystwyth, SY23 3EW
01970 820939
berwynfa@btinternet.com

Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

31 Rhagfyr:	Gwylnos i groesawu'r flwyddyn newydd dan arweiniad y Gweinidog Capel y Garn am 11.30 p.m.
26 Chwefror:	Oedfa Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch
5 Mawrth:	Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth Festri'r Garn am 7 o'r gloch

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

Dewch i groesawu'r
flwyddyn newydd
mewn
myfyrdod ac addoliad
nos Sadwrn, 31 Rhagfyr,
yng Nghapel y Garn
am 11.30 pm
dan arweiniad
y Gweinidog

Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth

Yn ddiweddar bu'r dosbarth yn astudio rhannau o'r Bregeth ar y Mynydd (Mathew 5–7), gan ddefnyddio'r gyfrol *Dehongli'r Bregeth* gan Elfed ap Nefydd Roberts fel esboniad. Ond o fis Ionawr 2012 ymlaen byddwn yn cychwyn ar daith gronolegol drwy'r Beibl gan dreulio dwy flynedd yn dilyn y gyfrol *Drwy'r Beibl, Drwy'r Flwyddyn*, sef addasiad Meirion Morris o gampwaith John Stott, *Through the Bible, Through the Year: daily reflections from Genesis to Revelation*. Paratowyd cydymaith pwrpasol i'r gyfrol gan Huw John Hughes.



Mae croeso cynnes i chi ymuno â'r dosbarth a gynhelir yn wythnosol, gan amlaf am 2 o'r gloch ar brynhawn dydd Mawrth yn festri Capel y Garn.

* * *

Dyma ran o adolygiad Elfed ap Nefydd Roberts o'r gyfrol:

Casgliad o fyfyrdodau athrawiaethol yn seiliedig ar brif themâu'r Beibl, ar gyfer bob dydd o'r flwyddyn, a geir yn y gyfrol hon. Seilir y sylwadau dyddiol ar adnod neu ddwy o'r Ysgrythur gan ddilyn patrwm y Calendr Cristnogol a luniwyd gan Grŵp Litwrgaidd Undebol Prydain.

Awdur y gyfrol yw John Stott, cyn-reithor eglwys enwog All Souls, Langham Place, Llundain, awdur toreithiog ac un o arweinwyr amlycaf yr adain efengylaidd yn Eglwys Loegr. Fel gŵr efengylaidd ei safbwynt, y mae'n awyddus i wreiddio themâu'r Calendr Eglwysig yn y Beibl ac yn hanes ymwneud Duw â'r byd fel Tad, Mab ac Ysbryd Glân. Fel y mae'r Calendr yn rhannu i dri chyfnod, rhennir y gyfrol hon yn yr un modd, gyda'r cyfnod cyntaf (Medi i Ragfyr) yn canoli ar waith Duw y Tad yn paratoi ei bobl drwy'r Hen Destament ar gyfer dyfodiad y Meseia; yr ail gyfnod (Ionawr i Ebrill) yn canoli ar waith Duw yn Iesu Grist a'i weinidogaeth achubol, a'r trydydd cyfnod (Mai i Awst) yn olrhain gwaith yr Ysbryd Glân ym mywyd a gwaith yr eglwys.

(Dyfynnwyd o *www.gwales.com*, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru)

Os MêTS

gweithgareddau'r gwanwyn 2012

Nos Iau 12 Ionawr
Parti'r Hen Galan a Chroesawu'r Fari Lwyd
Festri'r Garn am 7yh

Nos Iau 26 Ionawr
Noson yng nghwmni Gwenno Teifi
Neuadd Tal-y-bont am 7yh

Nos Iau 9 Chwefror
Noson Gemau
Festri'r Garn am 7yh

Nos Iau 23 Chwefror
Dathlu Diwrnod y Llyfr
Neuadd Tal-y-bont am 7yh

8 Mawrth
Dathlu Gŵyl Ddewi
Festri'r Garn am 7yh

22 Mawrth
'Eich Dewis Chi'

Gwasanaeth Nadolig Plant y Garn

Bore Sul, 11 Rhagfyr, cyflwynodd plant Ysgol Sul y Garn stori'r Geni ym Methlehem yn eu gwasanaeth Nadolig blynyddol. Y storïwraig oedd Glesni, a chymerwyd rhannau Joseff a Mair gan Rhys a Teleri. Shaun oedd yr angel Gabriel, gyda Lleucu yn ail angel. Fabien oedd gŵr y llety; y bugeiliaid oedd Lois, Llio a Gruffudd, a Harri, Elain ac Iago oedd y doethion. Chwaraewyd rhan Herod gan William, a'i gynghorydd oedd Gerwyn.

Yna cafwyd cyflwyniad gan Rhun, Ffion (Joram y bugail) a Gwern (gŵr doeth) oedd yn sôn am y ffordd y byddai bod yn dyst i'r geni wedi aros yng nghof y rhai a fu yno gydol eu hoes. Yn dilyn hynny, cyflwynodd ein gweinidog, y Parch Wyn Morris, rai o brif elfennau'r stori i'r plant, a chael ymateb bywiog ganddynt. Yr organydd oedd Mrs Llinos Dafis.

Yn dilyn y gwasanaeth, cafwyd parti i'r plant, ac fe alwodd Siôn Corn heibio gydag anrhegion i bawb.

Rhieni'r plant ac athrawon yr ysgol Sul oedd yn gyfrifol am hyfforddi'r plant ar gyfer y gwasanaeth a hefyd am drefniadau'r parti.

Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu llafur a'u parodrwydd i roi o'u hamser at waith yr ysgol Sul.

Taith Ann Griffiths

Ar fore digon llwydaidd a niwlog cychwynnodd criw bychan tua'r dwyrain i ddilyn ychydig o lwybrau yr emynyddes arbennig Ann Griffiths. Roedd heulwen godidog yr hydref ynghyd â man parcio addas ar ein cyfer ym mhentref tawel Dolanog. Wedi i ni baratoi, aethom i mewn i Gapel Coffa Ann Griffiths i edmygu'r bensaernïaeth ac i glywed ychydig o'i hanes.

Fel arfer, mae taith gyfan Llwybr Ann Griffiths yn cychwyn o Bont Llogel i lawr y dyffryn drwy Ddolanog ac ymlaen i bentref Pontrobert, ond heddiw y daith o Ddolanog i Bont Llogel oedd y nod, a hynny mewn golygfeydd hydrefol bendigedig.

Ein gorchwyl cyntaf oedd croesi'r comin ac wedi ychydig o ddringo caled cawsom ein plesio gan olygfeydd godidog o ddyfryn Efyrnwy a bryniau mwynder Maldwyn. Roedd cyfle i ni weld cip ar gartre'r emynyddes, Dolwar Fach, yn y pellter.

Ymlaen â ni i lawr o'r comin serth tuag at lan afon Efyrnwy, heibio Plas Dolanog a oedd newydd ei adeiladu pan oedd Ann yn teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol o'i chartref.

Er bod yr afon yn ddigon tawel a dioglyd, roedd yn amlwg fod rhyferthwy llifogydd yr hydref yn gallu newid cymeriad yr afon.

Ymlaen â ni, wedi hoe byr ar gyfer cinio yng ngwres yr haul, i ddilyn yr afon tuag at Bont Llogel, cawsom gyfle i grwydro'r dolydd a rhyfeddu at y bywyd gwyllt, y crëyr glas a'r hwyaid gwylltion, heb sôn am ysblander lliwiau dail yr hydref.

Diwrnod i'w gofio oedd y daith.

Dilwyn Jones

Diolch a chyfarchion

Diolch yn arbennig i'r Bugail am ei weinidogaeth ac am ei ofal bugeiliol diflino dros holl aelodau'r ofalaeth yn ystod y flwyddyn.

Anfonwn ein cyfarchion at bawb yn eglwysi'r ofalaeth sy'n wael, gartref neu mewn ysbyty, yn ogystal â'r rhai sy'n gaeth i'w cartrefi neu yn cael gofal mewn cartrefi preswyl.

Gweddïwn y bydd pob un ohonoch yn profi gofal a chariad Duw yn eich amgylchynu dros gyfnod y Nadolig ac yn y flwyddyn newydd.

Grŵp Help Llaw

Yn ystod y tymor anfonwyd llwyth arall o ddillad wedi eu gweu i'r cwfaint yn Pastuva, Lithiwania, ar gyfer plant anghenus yr ardal.

Bu ymateb hael i ymgyrch Operation Christmas Child 2011. Derbyniwyd 58 o focsys a dros £200 o nawdd.

Dechrau Rhagfyr, daeth Mrs Sue Hughes (Penrhyn-coch) atom i dderbyn pensiliau, beiros ac ati, ynghyd â chyfraniad ariannol tuag at Apêl Pen Pal. Sefydlwyd yr apêl yma gan ei merch, Lynne, mewn ymateb i'r hyn a welodd yn ystod ei hymweliad diweddar â Sri Lanka a gogledd India. Rydym yn dra diolchgar am bob cyfraniad tuag at yr achosion yma.

Ar hyn o bryd rydym yn gofyn am eich stampiau er budd Oxfam a chapiau plastig poteli llaeth, os gwelwch yn dda.

Shân (828268) Bethan (611502)

Ionawr

Blaenor y Mis: Erddyn James

I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie Jenkins

1 *Y Parch Elwyn Pryse*

4 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
'Taith i Bhutan' – Eryl Evans

6 Cwrdd Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 7 o'r gloch

8 *Gwyn Davies*
Y Parch Roger Ellis Humphreys

11 Pwyllgor yr ysgol Sul am 7.30 o'r gloch

15 *Bugail*
Cymun yn oedfa'r bore
Yr ysgol Sul yn ailddechrau

20 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Dylanwadau a Choronau' – John Price, Machynlleth

22 *Dr Rhidian Griffiths*

26 Noson Cyflwyno Llun Bethlehem i Fethlehem
Achlysur anffurfiol cymdeithasol – paned a chacen a mwy
Ysgoldy Bethlehem am 6 o'r gloch

27 Pwyllgor Swyddogion am 7 o'r gloch

29 *Bugail*
Roger Thomas

Chwefror

Blaenor y Mis: Vernon Jones

I gyfarch wrth y drysau: D Bryn Lloyd / D Elystan-Morgan

1 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
'Bywyd yn Japan' – Mair Jenkins

5 *Parch Richard Lewis*
Bugail
Oedfa'r bore yn Noddfa; oedfa'r hwyr yn y Garn

12 *Mr Tecwyn Jones*
Bugail

17 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Noson yng nghwmni Eleri Roberts

19 *Bugail*
Cymun yn oedfa'r bore

26 *Oedfa Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth*
dan arweiniad y Bugail

Llongyfarchiadau calonnog:

i Dilys a Vernon Jones ar enedigaeth wyres fach, Swyn Tirion, ar 21 Medi, merch i Non a Gerwyn, chwaer fach i Glain Erin ac Ela Grug;

i Miss Gwen Lewis ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ar 21 Rhagfyr.

Mawrth

Blaenor y Mis: Eddie Jenkins

I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Marian B Hughes

4 *Y Parch John Gwilym Jones*

5 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth am 7 o'r gloch

7 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch

11 *Bugail*
Mr Siôn Meredith

16 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Lluniau Llachar' – Iestyn Hughes

18 *Bugail*
Cymun yn oedfa'r bore
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

25 *Mr Aled Lewis Evans*

Neges olaf Dewi Sant:

Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi.

Bore Coffi'r Garn

Bore Sadwrn, 27 Tachwedd, cynhaliwyd bore coffi yn Festi'r Garn. Roedd y trefniadau dan ofal y Swyddogion, a chafwyd cyfle i gymdeithasu'a sgwrsio'n hamddenol dros baned a chefnogi'r stondin nwyddau cartref. Diolch yn arbennig i Dewi a Jennifer Hughes am ddarparu ar gyfer y plant.

Enillydd y gystadleuaeth 'Adnabod y Lluniau' a drefnwyd gan Iestyn Hughes oedd Rhys Tanat Morgan – a oedd yn llawer mwy craff na'r oedolion!

Cynigiwyd y diolchiadau gan y Gweinidog, a ddiolchodd i bawb am eu cefnogaeth ac am y cyfraniadau hael tuag at y capel.

Bethlehem

Dyma ddywed yr arlunydd Wynne Melville Jones ar ei wefan:

> Mae capel bach Bethlehem yn cuddio y tu ôl i ddwy goeden bythwyrdd ac mae'n awgrymu bod ein crefydd ni heddiw yng Nghymru yn cuddio y tu ôl i sgrin fel nad yw'r bobol tu allan yn medru gweld beth sy'n digwydd y tu mewn. Ond, mae Bethlehem wedi tyfu'n organig i fod yn ganolfan gymunedol brysur ac yn lleoliad ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau'r fro.

Rydym yn gwerthfawrogi haelioni'r arlunydd yn cyflwyno'r darlun arbennig hwn i'r ysgoldy – a bydd achlysur arbennig i ddathlu'r cyflwyniad ym Methlehem, nos Iau, 26 Ionawr am 6 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

I weld rhagor o'i luniau, ewch i: orielwynmel.co.uk

Carol

Cofiwn am eni ein baban gwyn
A chanu angylion ar ddôl a bryn,
Cofiwn am Fair yn ymbil â Duw
Am nerth i gychwyn rhyferthwy Ei fyw,
A chysgai Bethlem a'i theios clyd
Heb wybod fod Iesu yn crwydro'r stryd.

Ond ysigwyd Herod gan siglo'r crud
A chwalodd Ei chwerthin ochneidiau'r byd,
Y Seren syfrdanodd holl sêr y nef
A'r bugeiliaid yn baglu i'w ddilyn Ef,
Y seren fu'n eirias yng ngweithdy'r saer
Yn galw brenhinoedd i'w breseb gwair.

Cofiwn Simeon, hen batriarch llwm,
Yn canu gorfoledd ei henaint i Hwn,
Ac Anna unig yng ngwyll ei chell
Yn gweled Gwaredwr y gobaith gwell,
Mynnwn anadlu Ei newydd hoen
A syndod Ei seren tros erwau'r boen.

Gorchfygwn hen fyd sy'n dragwyddol drist
A synnwn weld Cymru'n croesawu'r Crist.
Daeth mewn cadachau, aeth mewn drain,
Ond heno, a'n hoes dan y bicell fain,
Seiniwn ein salmau, dyblwn y gân,
Mae hedd di-gledd yn Ei ddwylo glân.

Gwyn Erfyl

(O Hoff Gerddi Nadolig Cymru)

Blentyn Sanctaidd Bethlehem,
cofiwn i'th rieni fethu â chael lle yn y llety:
gweddïwn dros bawb sy'n ddigartref.
Blentyn Sanctaidd Bethlehem,
a aned mewn stabl:
gweddïwn dros bawb sy'n byw mewn tlodi.
Blentyn Sanctaidd Bethlehem,
a wrthodwyd fel dieithryn:
gweddïwn dros bawb sydd yn unig ac ar goll,
a phawb sy'n llefain am eu hanwyliaid.
Blentyn Sanctaidd Bethlehem,
y ceisiodd Herod dy ladd:
gweddïwn dros bawb sydd mewn perygl
a phawb sy'n cael eu herlid.
Blentyn Sanctaidd Bethlehem,
a fuost yn ffoadur yn yr Aifft:
gweddïwn dros bawb sydd ymhell oddi cartref.
Blentyn Sanctaidd Bethlehem,
ynot ti y mae'r Tragwyddol yn trigo:
erfyniwn arnat ein cynorthwyo
i weld y ddelw ddwyfol mewn pobl
ym mhob man.

David Blanchflower

(Rhif 380 yn *Amser i Dduw*, gol. *Elfed ap Nefydd Roberts)*

Cymdeithas y Chwiorydd, Capel Rehoboth

Ar ddechrau'r tymor newydd ymwelwyd ag arddangosfa Feiblaidd yn y Llyfrgell Genedlaethol brynhawn Mawrth, 8 Medi. Gan fod wyth o aelodau Capel Rehoboth wedi bod ar deithiau cerdded yn ystod yr haf yn dilyn ôl troed Mari Jones o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala, roedd yn brofiad arbennig i gael gweld un o feiblau Mari Jones yn yr arddangosfa. Cafwyd lluniaeth yng nghaffe Pen Dinas cyn dod adre.

Gan fod ugain mlynedd wedi mynd heibio ers i'r Gymdeithas gael ei hailffurfio, cyfarfu'r chwiorydd yn festri Capel Rehoboth, Tre-Taliesin, brynhawn Mawrth, 11 Hydref, i 'Ddathlu'r Ugain' yng nghwmni Beti Griffiths, Llanilar. Fe'i croesawyd gan Myfanwy Rowlands, a thraddododd sgwrs hwyliog yn egluro beth mae rhai capeli penodol, gan gynnwys capel Bethesda, Tynant, yn ei olygu iddi, ac nad dim ond adeiladau yn unig mohonynt. Talwyd y diolchiadau gan Eirlys Jones. Yna gwahoddwyd pawb i'r festri fawr i fwynhau te bendigedig wedi ei baratoi gan Myfanwy a Mai. Torrwyd y gacen gan ddwy o'r aelodau gwreiddiol, sef Vera Lewis ac Olwen Rowlands.

Croesawyd Manon Rhys, enillydd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam eleni, i'r cyfarfod ar brynhawn Iau, 10 Tachwedd. Treuliwyd prynhawn difyr iawn yn gwrando arni yn trafod rhai o'i nofelau ac yn darllen pytiau ohonynt. Diolchwyd iddi gan Mai Leeding, ac yna mwynhawyd paned o de wedi ei baratoi gan Olwen Rowlands a Megan Brickley.

Carys Briddon

Cyfeiriadau e-bost

O bryd i'w gilydd byddaf yn anfon neges e-bost yn tynnu sylw'r aelodau at ddigwyddiad arbennig o fewn yr ofalaeth neu ryw ddigwyddiad allai fod o ddiddordeb yn yr ardal. Mae'n ddull hwylus o gysylltu â nifer o bobl sy'n defnyddio'r cyfrwng.

Os hoffech dderbyn y negeseuon hyn, tybed a fyddech cystal ag anfon neges ataf: marian_hughes@btinternet.com, os gwelwch yn dda, fel y gallaf ychwanegu eich enw at y rhestr.

Diolch am eich cydweithrediad,
Marian B Hughes

400 Mlwyddiant Beibl y Brenin Iago

Tybed a gawsoch y fraint o ymweld ag arddangosfa wych yn seiliedig ar ddathlu 400 mlwyddiant cyhoeddi Beibl y Brenin Iago yn y Llyfrgell Genedlaethol eleni? Gwell fyth, a gawsoch y wefr o gael eich tywys yn gorfforol, yn feddyliol ac yn ddiwylliannol gan aelod o un o eglwysi'r ofalaeth, Dr Maredudd ap Huw, gyda'i ddawn arbennig ffantasmagoraidd i ddwyn ynghyd gysylltiadau cyhoeddi'r Beibl ar draws y canrifoedd yn ystyriol a dealladwy? Cyhoeddwyd y Beibl Awdurdodedig hwn yn Saesneg yn y cyfnod pan gyfoethogwyd ein crefydd a'n hiaith yng Nghymru drwy gyhoeddi Beibl William Morgan ac yna gampwaith diwygiedig Dr John Davies, Mallwyd, yn 1620.

Tua'r un adeg â'r arddangosfa, mewn treflan ychydig i'r de o Sydney roedd cyfaill agos i mi ers dyddiau coleg yn traddodi anerchiad ar Feibl y Brenin Iago gan ddethol darnau a oedd wedi'i gynnal ar hyd y blynyddoedd, a chan adlewyrchu ei gariad at iaith a llenyddiaeth ddarnau cyffrous a phellgyrhaeddol eu hystyr. Cafodd Julian Comer, sydd â pheth gwaed Cymreig yn ei wythiennau, ei addysg yn Ysgol y Gadeirlan, Bryste, a gwnaeth waith gwirfoddol gyda VSO yn y Cameroon cyn dilyn cwrs Saesneg a Ffrangeg ym Mhrifysgol Keele. Yn actor medrus wrth reddf, meddai ar lais arbennig a fyddai'n gyfrwng bythgofiadwy i fynegi a deall wrth iddo ddarllen o'r ysgrythur a llenyddiaeth. Does ryfedd, felly, ac yntau bellach wedi ymddeol ar ôl gyrfa ym maes marchnata ac yn ysgrifennydd-weinyddwr rhan amser yn St David's Anglican Church, Thirroul, iddo weld cyfle i ddathlu cyhoeddi'r Beibl Awdurdodedig; gwnaeth hynny drwy ddewis a darllen rhannau pwrpasol ac arwyddocaol yn ei fywyd fel Cristion yn iaith gyfoethog cyfnod y Beibl hwnnw, a fu'n sylfaen i ddatblygiad yr iaith Saesneg a'i llenyddiaeth wedi hynny.

Gallem ninnau hefyd ymfalchïo ym Meiblau William Morgan a John Davies, a roddodd sylfaen werthfawr a chyfoethog i'r Gymraeg a diwylliant ein cenedl. Codwyd y mwyafrif ohonom yn sain iaith y Beiblau hynny ac ar y seiliau hynny yr erys rhannau pwysig o'r ysgrythur gyda ni ar y cof.

Addasiad o rannau o anerchiad Julian a gynigir yma, gan gofio bod y gwreiddiol yn ymwneud â'r iaith Saesneg, ond credaf y bydd agweddau ohono a'r rhannau dethol o'r ysgrythur yn adleisio gyda ni ac yn ein hiaith ninnau. Diolch am gyfoeth ein traddodiad ac am ein crefydd.

Tybed pa un yw eich hoff ran chi o'r Beibl, ac o ba fersiwn ohono? Rhowch wybod neu lluniwch erthygl fer yn nodi eich rheswm i'w rannu gyda darllenwyr 'Gair o'r Garn'.

Dewi G Hughes

Anerchiad a gyflwynwyd yn Eglwys Anglicanaidd Dewi Sant, Thirroul – 18 Medi 2011

Un bore gaeafol, sef 19 Tachwedd 1957, yn nerfus dringodd bachgen deng mlwydd oed y deuddeg gris i'r ddarllenfa. Yn ymyl cyfrol ddu'r Beibl Awdurdodedig, edrychai'n fychan iawn o gorffolaeth, ac arhosodd nes i fariau olaf yr emyn ddistewi. Setlodd y gynulleidfa o drichant o'i gyd-ddisgyblion a'u hathrawon yng nghorff y gadeirlan. Dechreuodd y bachgen ddarllen yn gyhoeddus am y tro cyntaf ac i'w gynulleidfa fwyaf erioed. Roedd yn gwbwl bosibl na allai nifer ohonynt ei weld. Darllenodd **Lythyr Paul at y Rhufeiniaid, Pennod 12**.

Mae awdur yr epistol wedi taro nodyn cwbwl briodol; ac yntau wedi rhestru diffygion yr Israeliaid yn y bennod flaenorol, yma mae'n nodi rhinweddau gwir Gristion. Gan ddechrau, fel y gwna'n aml, â'r ymadrodd awdurdodol 'Am hynny ...' mae'r cyngor a roddir yn carlamu 'mlaen. Ond athrylith hyn a llawer rhan o'r Beibl yw'r cydbwysedd rhwng y geiriau a'r syniadau. ('Casewch ddrwg, glynwch wrth y da)

Fe sylwch yn y darlleniadau sydd gennyf – ac yn wir mewn unrhyw ddarlleniad o'ch dewis – fod yr iaith ynddynt yn atseinio'n gerddorol. Bwriedir i'r darnau gael eu darllen yn uchel ac os gwnewch hynny'n ddigon aml, fe ddigwydd rhywbeth pur ryfeddol; fe welwch fod ystyr y darn yn cael ei gyfoethogi. Mae eich meddyliau chi a minnau wedi'u tiwnio i gerddoriaeth oherwydd bod cerddoriaeth wedi bod gyda ni'n wastadol o'r dechrau cyntaf. O drydar yr adar i ganu gwerin, o fiwsig pop a symffoni hyd at y gair llafar, mae ein dealltwriaeth yn dibynnu ar gyweirnod a thraw, sain a phwyslais. Dywed seicolegwyr wrthym ein bod yn gwneud penderfyniadau am bobl, a bod ein teimladau tuag atynt yn cael eu ffurfio, yn dilyn y *geiriau cyntaf* ddaw o'u genau. Mae pobl mewn rhai meysydd, yn arbennig yn y sector adnoddau dynol, yn gwbl ymwybodol o hyn, ac yn ymarfer yn drylwyr gyda'u gweithwyr cyn iddynt fynd gerbron panel penodi.

'Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear' – ffordd drawiadol o ddechrau hanes ymwneud Duw â'i greadigaeth. Mae Efengyl Ioan yn cynnal y thema, a chyfeirio yr oedd yr awdur, wrth gwrs, at ffaith ganolog a hollgynhwysol ymgnawdoliad Duw: **Efengyl Ioan, Pennod 1**. Sylwer ar y modd tyner y cyflwynir yr Arglwydd yma. Daw geiriau megis 'y Gair', 'Goleuni', 'Bywyd', 'gras' a 'gwirionedd' â ni at yr hyder tawel y bydd yr hanes sy'n dilyn yn unigryw. Ac felly'n wir y mae.

Ond am ymdeimlad o fawredd Duw, rhaid troi at **Eseia 6**. Symud 'pyst y rhiniogau' a thai'n llawn mwg yw arddull Eseia, gydag ambell seraff yn y pair hefyd.

O blith disgyblion Iesu, Pedr oedd yr un mwyaf dynol, yn fy nhyb i: methodd gerdded ar y dŵr, llwyddodd i gamddeall pwrpas yr Arglwydd, a derbyn y cerydd enwocaf mewn hanes – 'Dos yn fy ôl i, Satan, rhwystr wyt i mi' – cyn iddo, braidd yn anffodus, dorri clust gwas yr archoffeiriad yng Ngethsemane. A gwadu Crist: darllenwch **Luc 22:54–62**.

Roedd y rhai hynny ohonom a godwyd gyda fersiwn y Brenin Iago o'r Beibl yn croesawu cyhoeddi'r hyn a alwyd yn 'New English Bible' yn nechrau'r chwedegau. Roedd yn sicr yn gynnyrch ei gyfnod, wedi'i gysodi mewn ffordd lai mympwyol (a pham roedd nifer fawr o Feiblau wedi'u gosod mewn print mor fach?) ac roedd iddo ymdeimlad o'r cyffredin a'r cryno. 'Teilwng' oedd y gair a ddefnyddiwyd gan rai. Fel bara gwyn, fel caws Kraft, roedd yn rhywbeth cyffredin, addas i bawb. Disgynnodd yn drychinebus rhwng dwy stôl – cydbwysedd/cerddoriaeth/synnwyr a rhestr siopa. Ac ni chafodd y fersiynau a'i dilynodd well derbyniad chwaith.

Fel y gwin yng Nghana Galilea, cedwais y gorau hyd y diwedd.

Mae rheswm da iawn pam mae **Pennod 13 o Lythyr Cyntaf Paul at y Corinthiaid** yn ddewis poblogaidd mewn priodasau, pan fo angen agwedd fwy difrifol yn ystod y gweithrediadau. Awgrymaf nad oes unrhyw ran o'r ysgrythur yn ein hiaith sy'n ymgorffori mor llwyr ddyletswydd y Cristion i garu Duw a dynolryw, gan ein rhoi mor ganolog mewn byd amherffaith â'r gobaith gwirioneddol o achubiaeth, ac felly'n rhoi inni'r sicrwydd o ddatguddiad clir o Dduw wedi gofidiau'r bywyd hwn.

Gyda chyhoeddi Beibl y Brenin Iago a gwaith Shakespeare, oedd yn cydoesi, bron, gosodwyd arddull a sylwedd i'n hiaith mewn modd sydd wedi golygu mai'r iaith Saesneg yw'r arf fwyaf hyblyg a gafodd y byd erioed, yr unig iaith sy'n wirioneddol fyd-eang. Mae wedi amsugno geiriau o bob iaith ac is-ddiwylliant ar y ddaear, bron, ond gan gynnal ei hunaniaeth.

Dywedodd rhywun rywdro nad oedd yn hoffi Shakespeare gan fod ei waith yn llawn ymadroddion ystrydebol. Gellir gwneud yr un cyhuddiad am y Beibl; ond a wnaethoch chi sylwi ar y datganiad, 'Rhwystr wyt i mi' yn gynharach? Do, wrth gwrs.

Hyderaf eich bod wedi mwynhau rhai o'm hoff adrannau o'r Beibl. Efallai fod un neu ddau ohonynt yn ffefrynnau gennych chithau hefyd.

Dros hanner can mlynedd yn ôl, gorffennodd y bachgen yn y gadeirlan ei ddarlleniad yn unol â'r traddodiad gyda phedwar gair. Ac fe'u hailadroddaf hwy nawr: 'Dyma ddiwedd y Llith …'

Julian Comer

Adnoddau Defnyddiol gan Gyhoeddiadau'r Gair



Cynnal Oedfa
Disg ar gyfer y cyfrifiadur, yn cynnwys 125 o wasanaethau cyflawn ar gyfer addoliad cyhoeddus ar ffurf dogfennau PDF.
Pris: £11.99

Torri Syched
DVD yn cynnwys tair ffilm fer am bobl, bywyd a ffydd. Pris: £7.99

Beibl Bach i Blant
DVD o 64 cyflwyniad PowerPoint ar gyfer y cyfrifiadur yn seiliedig ar storïau allan o'r *Beibl Bach i Blant*, yn cynnwys dros 400 o luniau lliwgar. Pris: £13.99



Stori Duw
DVD o 52 o storïau beiblaidd i blant yn cael eu hadrodd gan Mici Plwm; yn seiliedig ar y gyfres o lyfrau Storïau'r Beibl gan Lion Hudson.
Pris: £14.99

Swyddogion yr Ofalaeth
Cadeirydd: Mrs Ina Williams, Brynawel, Pant-y-crug, Capel Seion (01970 880489)
Is-gadeirydd: Mrs Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow St (01970 828662)
Ysgrifennydd: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **11 Mawrth**:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com